



## ETHOLIAD I GYMRODORIAETH CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU – 2021-22

### Canllawiau ar y Broses Etholiadol

#### CYNNWYS

Cyflwyniad .....	1
Y Broses Etholiadol .....	3
Y Camau Nesaf yn Dilyn Pleidlais y Cymrodyr .....	4
Rolau yn y Broses Etholiadol – Diffiniad a Chymhwyster .....	5
Canllawiau ar Gwblhau'r Ffurflenni .....	7
Atodiad 1 – Pwyllgorau Craffu .....	11
Atodiad 2 – Sut ydym yn Asesu Rhagoriaeth Enwebeion .....	15
Atodiad 3 – Canllawiau Ychwanegol i'r Pwyllgorau Craffu .....	19

#### CYFLWYNIAD

##### AR GYFER PWY MAE'R DDOGFEN HON?

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer y bobl ganlynol sy'n ymwneud ag enwebiad i'r Gymrodoriaeth:

- Enwebai
- Cynigydd (y prif enwebwr)
- Cefnogwr Gwybodus
- Aseswyr Annibynnol
- Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu sy'n asesu'r enwebiadau

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael eich enwebu i'r Gymrodoriaeth yn y dyfodol, gobeithio y bydd hwn yn ganllaw defnyddiol. Mae'r Gymdeithas yn ymrwymo i gynnal proses etholiadol sy'n deg, agored a thryloyw.

##### BETH YW CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU?

Ni yw academi ysgolheigaidd genedlaethol Cymru, a sefydlwyd yn 2010. Mae gennym Gymrodoriaeth sy'n cynnwys dros 590 o unigolion amlwg, yn cynrychioli arbenigedd ar draws pob maes academiaidd a thu hwnt. Defnyddiwn yr wybodaeth gyfunol hon i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysg, a chynnig cyngor polisi annibynnol.

Mae'r Gymdeithas yn elusen Siarter Brenhinol, rhif elusen gofrestrdig 1168622. Ceir rhagor o wybodaeth amdanom yma:

[www.cymdeithasddysgedig.cymru](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru)



---

## BETH YW YSTYR CYMRODORIAETH?

Mae etholiad i'r Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth. Mae pob un o'n Cymrodyr wedi gwneud cyfraniad pwysig i fyd dysg ac mae ganddynt oll gysylltiad amlwg â Chymru.

Oherwydd statws y Gymrodoriaeth, rhaid i'r holl Enwebeion (ar wahân i Gymrodyr er Anrhydedd) fynd drwy broses drylwyr o asesu. Mae'n broses gystadleuol - derbynnir o ddeutu 40 o Gymrodyr bob blwyddyn, ond daw llawer mwy o enwebiadau i law. Ceir rhagor o wybodaeth am feini prawf y Gymrodoriaeth ar dudalen 5.

Ar ôl cael eu hethol, mae Cymrodyr yn aelodau oes a gofynnir iddynt gyfrannu i waith y Gymdeithas lle bo'n bosibl. Gall hyn gynnwys cyfrannu at ddigwyddiadau, gwaith polisi, gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, llywodraethu neu brosesau etholiadol yn y dyfodol.

Ceir rhestr o'n Cymrodyr presennol yma:

[www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/y-cymrodyr](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/y-cymrodyr)

---

## CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYHNHWYSIANT

Mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ymrwymiad cryf tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Gymdeithas yn groesawgar ac yn gynhwysol, ac ni fydd unrhyw fath o wahaniaethu yn dderbyniol gennym.

Rydym yn gweithio tuag at Gymrodoriaeth fwy amrywiol, gyda mwy o aelodaeth o'r holl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu enwebiadau merched.

Rydym yn annog enwebiadau o'r byd academiaidd, busnes, y proffesiynau, y cyhoedd a'r trydydd sector.

Rydym yn cydnabod y gellir dangos rhagoriaeth dros ystod o hydoedd gyrfa, ac nid oes gan ein Pwyllgorau Craffu ddisgwyliad penodol o ran oedran Cymrawd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod enwebeion yn cwrdd â'n Meini Prawf Rhagoriaeth. Trwy ganolbwyntio ar lwyddiannau enwebeion, statws proffesiynol a chyfraniadau ehangach, ein nod yw sicrhau bod ein Cymrodyr yn enghreifftiau awdurdodol o oreuon Cymru ar draws pob maes dysgu.

Croesawir enwebiadau yn Gymraeg a/neu Saesneg.

### **Amgylchiadau ariannol**

Rydym eisiau sicrhau nad yw ein ffioedd derbyn ac aelodaeth (gweler t.4) fyth yn rhwystr i Gymrodoriaeth. Rydym yn gweithredu Polisi Rhyddhad Ffioedd ar gyfer Cymrodyr y mae eu hamgylchiadau'n ei gwneud yn anodd iddynt dalu'r ffioedd. Fel Enwebai, gallwch wneud cais rhagflaenol, a byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn enwebu a fydd rhyddhad ffioedd yn cael ei ganiatáu. [Gallwch weld y polisi yma.](#)



## Y BROSES ETHOLIADOL

### TROSOLWG

1	Cyflwyno enwebiadau	1 Mehefin i 31 Hydref 2021
2	Cyrchu asesiadau annibynnol ar gyfer pob enwebiad	Tachwedd – Rhagfyr 2021
3	Pwyllgorau Craffu'n asesu'r enwebiadau	Ionawr 2022
4	Is-Lywyddion yn cynnig rhestr fer i Gyngor y Gymdeithas	Mawrth 2022
5	Y Cyngor yn cwblhau'r rhestr o Enwebeion	Mawrth 2022
6	Y Gymrodoriaeth yn pleidleisio ar yr Enwebeion	Ebrill 2022

### BETH SYDD EI ANGEN AR ENWEBIAD DILYS?

Caiff enwebiad ei wneud gan Gynigydd, gyda chefnogaeth Eilydd. Rhaid iddynt fod yn Gymrodyr cyfredol y Gymdeithas.

Rhaid i'r Cynigydd gyflwyno'r holl ddogfennau canlynol, wedi'u cwblhau'n llawn, cyn y dyddiad cau (gweler [www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/ffurflenni-enwebu](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/ffurflenni-enwebu)):

- **Ffurflen Enwebu** – a gwblheir gan y Cynigydd a'i llofnodi gan yr Eilydd
- **Ffurflen Tystiolaeth yr Enwebai** – a gwblheir gan yr Enwebai
- **CV llawn yr Enwebai** – a ddarperir gan yr Enwebai; yn cynnwys rhestr llawn o gyhoeddiadau neu allbynnau
- **Adroddiad Cefnogwr Gwybodus** – a gwblheir gan y Cefnogwr Gwybodus, mewn ymateb i'r wybodaeth ar Ffurflen Tystiolaeth yr Enwebai

Caiff Enwebeion ddewis cwblhau **Ffurflen Amgylchiadau Unigol** gyfrinachol, gyda manylion unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar eu gyrfa. Dylent gyflwyno'r ffurflen yn uniongyrchol i'r Gymdeithas. Byddwn ni'n ei rhannu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am ystyried yr enwebiad hwnnw'n unig.

Mae'n hanfodol fod y ffurflenni'n cael eu cwblhau mor llawn â phosibl a'u bod yn cadw at unrhyw uchafswm geiriau a nodir. Ni fyddwn ni'n ystyried unrhyw ddeunyddiau, geirda na llythyrau cefnogol ychwanegol digymell.

#### Nodwch:

- Rhaid cadw'r enwebiad yn **gwbl gyfrinachol** rhwng yr Enwebai, y Cynigydd, yr Eilydd a'r Gymdeithas.
- Ni ddylai enwebeion lenwi'r Ffurflen Enwebu na chael y llofnodion ategol eu hunain.
- Ni fydd y Gymdeithas yn gohebu mewn unrhyw ffordd gyda'r Enwebai am yr enwebiad.



---

## DYDDIAD CAU ENWEBIADAU

Rhaid ebostio'r holl ffurflenni i [nominations@lsw.wales.ac.uk](mailto:nominations@lsw.wales.ac.uk) cyn **hanner dydd, dydd Sul 31 Hydref**. Ni dderbynnir ffurflenni a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn, neu a anfonir i gyfeiriad arall.

Byddwn yn cydnabod pob enwebiad a ddaw i law. Os nad ydych chi'n derbyn cydnabyddiaeth o fewn 3 diwrnod, anfonwch ebost arall i [nominations@lsw.wales.ac.uk](mailto:nominations@lsw.wales.ac.uk). Ni fyddwn yn gyfrifol am enwebiadau nad ydynt yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.

---

## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R ENWEBIAD DDOD I LAW'R GYMDEITHAS?

Byddwn yn trosglwyddo'r holl ddogfennau – ac eithrio unrhyw Ffurflenni Amgylchiadau Arbennig – i'r Pwyllgor Craffu a ddewiswyd gan yr Enwebai ar y Ffurflen Tystiolaeth. (Mae gennym naw Pwyllgor Craffu, gyda phob un yn ymdrin â maes dysg gwahanol – gweler Atodiad 1 am fanylion.)

Bydd y Pwyllgor Craffu'n cyrchu o leiaf un adroddiad sy'n asesiad annibynnol ar bob Enwebai. Yna bydd yn cyfarfod i asesu'r holl enwebiadau y mae wedi'u derbyn.

Bydd y Pwyllgor Craffu'n gwneud argymhellion i un o'n HIs-Lywyddion (neu yn achos Pwyllgor C1, yn uniongyrchol i Gyngor y Gymdeithas). Bydd y Cyngor yn cyfarfod ym mis Mawrth i wneud y penderfyniad terfynol ar ba enwebiadau a gaiff eu cyflwyno i bleidlais o'r Cymrodyr.

Nodwch mai'r unig wybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yw datganiad y Cynigydd am yr Enwebai (h.y. cwestiwn 10 ar y Ffurflen Enwebu). Fodd bynnag, caiff aelodau'r Cyngor weld holl waith papur yr enwebiad ar ddiwrnod y cyfarfod os ydynt yn dymuno.

---

## Y CAMAU NESAF YN DILYN PLEIDLAIS Y CYMRODYR

---

### ENWEBEION A ETHOLWYD YN GYMRODYR

Byddwn yn cysylltu â chi i'ch llongyfarch ar gael eich ethol yn Gymrawd. Byddwn yn eich gwahodd i gael eich derbyn yn ffurfiol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Mai, ac i fynychu ein Cinio Blynnyddol pan fydd yn cael ei gynnal.

Nodwch fod gofyn i Gymrodyr newydd dalu ffi derbyn o £80. Hefyd ceir ffi tanysgrifio blynnyddol o £160 (£80 i'r rheini sydd dros 70 ar 25 Mai 2022). Caiff y sawl sydd dros 85 oed eu heithrio o'r ffioedd derbyn a thanysgrifio.

Fel y nodwyd ar t.2, rydym yn gweithredu Polisi Rhyddhad Ffioedd ar gyfer Cymrodyr y mae eu hamgylchiadau'n ei gwneud yn anodd iddynt dalu'r ffioedd.

---

### ENWEBEION AFLWYDDIANNUS

Byddwn yn cysylltu â chi a'ch Cynigydd i'ch hysbysu na fu eich enwebiad yn llwyddiannus. Bydd cyfle i chi gael adborth gan yr Is-Lywydd perthnasol (neu'r Llywydd yn achos enwebiadau i bwyllgor C1).

Mae modd i chi gael eich enwebu mewn blynnyddoedd yn y dyfodol, cyhyd â bod eich Cynigydd yn cyflwyno enwebiad wedi'i ddiweddarau yn defnyddio gwaith papur cylch etholiad y flwyddyn honno. Does dim terfyn ar y nifer o weithiau y gallwch gael eich enwebu.



## ROLAU YN Y BROSES ETHOLIADOL – DIFFINIAD A CHYMHWYSTER

### ENWEBAI

Yr Enwebai yw'r unigolyn sy'n dymuno cael ei ethol yn Gymrawd. Rydym yn diffinio Cymrawd fel a ganlyn:

*Bydd y Cymrodyr yn **unigolion sy'n preswyllo yng Nghymru, unigolion a anwyd yng Nghymru ond sy'n preswyllo yn rhywle arall ac eraill sydd â chysylltiad penodol â Chymru**; ym mhob achos bydd ganddynt hanes amlwg o ragoriaeth a chyflawniad mewn un o'r disgyblaethau academaidd neu, os ydynt yn aelodau o'r proffesiynau, y celfyddydau, diwydiant, masnach neu wasanaethau cyhoeddus, byddant wedi gwneud cyfraniad nodedig i fyd dysg.*

Bydd y meini prawf a'r mesur o arbenigrwydd wrth reswm yn amrywio rhwng gwahanol ddisgyblaethau a meysydd cyflawniad. Rydym yn mesur cyflawniadau pob Enwebai yn ôl y cyfleoedd maen nhw wedi'u cael yn eu gyrfa. Fodd bynnag, ym mhob achos, rydym yn diffinio rhagoriaeth yn nhermau'r meini prawf cyffredinol canlynol:

- Cyflawniad eithriadol (ansawdd eich cyflawniadau a'ch cyfraniadau at ddysgu)
- Statws proffesiynol (cryfder eich enw da ymhlith eich cyfoedion)
- Cyfraniadau ehangach (yr effaith rydych wedi'i chael ar bobl, sefydliadau neu gymdeithas ehangach)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf hyn yn Atodiad 2.

### CYNIGYDD

Y Cynigydd sy'n gyfrifol am gwblhau'r ffurflen enwebu a chyflwyno'r holl ddogfennau a nodir dan 'Beth sydd ei angen ar enwebiad dilys?' (tudalen 3). Y Cynigydd yw prif gyswllt y Gymdeithas mewn perthynas â'r enwebiad a bydd (ynghyd â'r Enwebai) yn cael ei hysbysu am y canlyniad ar ddiwedd y Broses Etholiadol.

Rhaid i'r Cynigydd fod yn Gymrawd cyfredol y Gymdeithas. Ym mhob cylch etholiad, caiff Cymrawd weithredu fel Cynigydd ar gyfer **tri Enwebai yn unig**. Fodd bynnag, mae Enwebeion benywaidd ac Enwebeion o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol wedi'u heithrio o'r cyfyngiad hwn.

Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, rhaid i Gynigydd **beidio** â bod:

1. Yn gadeirydd un o'n Pwyllgorau Craffu
2. Yn aelod o'r Pwyllgor Craffu y cyflwynir yr enwebiad iddo
3. Yn perthyn drwy deulu i'r Enwebai

### EILYDD

Mae'r Eilydd yn cefnogi'r enwebiad ac yn cwblhau cwestiynau 4-5 ar y ffurflen enwebu.

Fel y Cynigydd, rhaid i'r Eilydd fod yn Gymrawd cyfredol. Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau ni chaiff fod yn perthyn drwy deulu i'r Enwebai. (Nid yw'r cyfyngiadau eraill ar y Cynigwyr yn gymwys.)



---

## CEFNOGWR GWYBODUS

Mae Cefnogwr Gwybodus yn defnyddio ei wybodaeth am yr Enwebai i gefnogi'r enwebiad. Gofynnir i'r Cefnogwr Gwybodus gwblhau ffurflen adroddiad ar wahân a'i hanfon at y Cynigydd cyn dyddiad cau'r enwebiadau.

Nid oes angen i'r Cefnogwr Gwybodus fod yn Gymrawd cyfredol, ond dylai fod yn:

- Rhywun sy'n gyfarwydd â gwaith yr Enwebai (efallai eu bod wedi cydweithio - e.e. cyd-ddeiliad grant, cydawdur, goruchwyliwr neu gydweithiwr - ond nid yw hyn yn ofynnol)
- Ysgolhaig nodedig gyda statws rhyngwladol yn y maes neu, (yn achos enwebiadau i gategori C1) unigolyn â chymhwysedd cyffelyb o fyd busnes, gwasanaeth cyhoeddus neu'r proffesiynau

Rhaid i'r Cefnogwr Gwybodus **beidio** â bod:

- Yn aelod o Gyngor y Gymdeithas neu o'r Pwyllgor Craffu y cyflwynir yr enwebiad iddo
- Yn gyflogedig neu'n gweithio yn sefydliad/corff yr Enwebai

Caiff y Cynigydd, yr Eilydd a'r Enwebai drafod pobl briodol ar gyfer y rôl hon, ond y Cynigydd yn unig ddylai gysylltu â'r Cefnogwr Gwybodus i holi am adroddiad.

---

## ASESWYR ANNIBYNNOL

Caiff pob enwebiad ei asesu gan o leiaf un (ond gorau oll ddau) Asesydd Annibynnol.

Nid oes angen iddynt gwblhau unrhyw waith papur cyn cyflwyno'r enwebiad. Yn lle hynny gofynnwn iddynt gwblhau adroddiad annibynnol yn ddiweddarach. Yn yr adroddiad, maent yn asesu'r Enwebai yn erbyn ein meini prawf etholiad ac yn erbyn y meincnodau'r maes/meysydd cyflawniad perthnasol.

Nid oes angen i Asesydd Annibynnol fod yn Gymrawd cyfredol, ond dylai fod yn:

- Ysgolhaig nodedig gyda statws rhyngwladol yn y maes (neu yn achos enwebiadau i gategori C1) unigolyn â chymhwysedd cyffelyb o fyd busnes, gwasanaeth cyhoeddus neu'r proffesiynau
- Rhywun sy'n gyfarwydd â maes, gwaith neu statws yr Enwebai

Gall yr Asesydd Annibynnol fod y tu allan i'r DU i gynorthwyo gydag asesu enw da rhyngwladol yr Enwebai.

Rhaid i Aseswyr Annibynnol **beidio** â bod:

- Yn aelodau o Gyngor y Gymdeithas nac unrhyw un o'i Phwyllgorau Craffu
- Yn gyflogedig neu'n gweithio yn sefydliad/corff yr Enwebai
- Yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda gwaith yr Enwebai (e.e. cydawdur, cyn oruchwyliwr neu Gyd-Brif Ymchwilydd)
- Ffrind personol agos neu'n perthyn drwy deulu i'r Enwebai

Dylai'r Cynigydd awgrymu hyd at dri Asesydd Annibynnol ar y ffurflen enwebu. Gall drafod yr enwau gyda'r Eilydd a'r Enwebai, ond ni chaiff gysylltu â'r unigolion a awgrymir.

Unwaith y byddwn wedi trosglwyddo enwebiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol, bydd yn dethol un Asesydd priodol neu ragor. Gall hyn gynnwys unigolion eraill na chafodd eu hawgrymu ar y ffurflen enwebu. Yna bydd y Gymdeithas yn cysylltu â'r Asesydd/wyr arfaethedig.



## CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLENNI

### FFURFLEN ENWEBU

Oni nodir yn wahanol, dylai'r Cynigydd gwblhau pob rhan o'r ffurflen enwebu.

**Cwestiynau 1-3** I'w cwblhau gan y Cynigydd.

**Cwestiynau 4-5** I'w cwblhau gan yr Eilydd.

Cewch osod llofnodau wedi'u sganio yn y blychau Llofnod.

**Cwestiwn 6** Nodwch enw'r Cefnogwr Gwybodus ynghyd â sail resymegol eich dewis. Nodwch fod rhaid i'r Cefnogwr Gwybodus gwblhau ffurflen ar wahân - gweler yr arweiniad ar dudalen 8.

**Cwestiwn 7** Awgrymwch hyd at dri Asesydd Annibynnol i'r Pwyllgor Craffu eu hystyried. Fel y nodir ar dudalen 5, ni ddylech gysylltu â'r Aseswyr a awgrymir.

**Cwestiwn 8** Dewiswch y Pwyllgor Craffu mwyaf addas i asesu'r enwebiad. Gweler Atodiad A am arweiniad manylach.

Nodwch mai un pwyllgor yn unig sy'n gallu ystyried enwebiad, ac nid oes modd ei drosglwyddo o un pwyllgor i'r llall.

**Cwestiwn 9** Unwaith eto, cyfeiriwch at Atodiad A i ateb y cwestiwn hwn. Nodwch y ddisgyblaeth neu'r maes yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu sy'n cynnig y disgrifiad gorau o'r Enwebai. Cewch nodi mwy nag un os yw'n briodol. Os nad oes yr un yn gymwys, nodwch "Arall" gan ddisgrifio'r ddisgyblaeth/maes mewn ychydig eiriau.

**Cwestiwn 10** Dylid ysgrifennu hwn mewn ymateb i ddatganiad yr Enwebai ar y Ffurflen Tystiolaeth. Dylech gyfeirio'n benodol at y meincnodau'r maes/meysydd cyflawniad y caiff yr enwebiad ei werthuso yn eu herbyn – gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth.

### FFURFLEN TYSTIOLAETH YR ENWEBAI

Dylai'r Cynigydd a'r Enwebai weithio gyda'i gilydd ar y Ffurflen Tystiolaeth. Mae hon yn darparu gwybodaeth hanfodol i gefnogi'r enwebiad. Dylai ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen:

1. i gefnogi'r achos dros etholiad a gyflwynir gan y Cynigydd a'r Eilydd
2. i ddarparu dystiolaeth er mwyn i'r Cefnogwr Gwybodus, yr Asesydd/wyr Annibynnol a'r Pwyllgor Craffu allu dod i farn wybodus am yr honiadau a wneir yn yr enwebiad

Mae'n arbennig o bwysig bod y Ffurflen Dystiolaeth yn dangos sut mae'r Enwebai yn bodloni ein Meini Prawf Rhagoriaeth cyffredinol, naill ai:

- ar gyfer enwebiadau i Bwyllgorau Craffu Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (**HASS**) a **STEMM**, drwy fodloni'r meincnodau o'u dewis

neu



- ar gyfer enwebiadau i'r Pwyllgor **C1**, drwy ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y mae eu priodoleddau a'u cyflawniadau yn bodloni'r meini prawf hynny.

Mae canllawiau pellach ar y meincnodau a'r cyflawniadau dangosol ar gael yn Atodiad 2.

**Cwestiwn 1** Nodwch eich manylion personol. Mae'r datganiad ar dudalen olaf y ffurflen yn egluro sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i Aseswyr Annibynnol.

Nodwch: os bydd eich enwebiad yn llwyddiannus, byddwn yn atgynhyrchu'r wybodaeth ganlydol **yn union fel y'i darperir yng Nghwestiwn 1** yn ein cofrestr o Gymrodyr ac mewn datganiadau cyhoeddus:

- Eich teitl, enw ac unrhyw lythrennau ôl-enwol (felly, peidiwch â nodi enw canol oni bai eich bod yn ei ddefnyddio'n gyhoeddus)
- Eich swydd/rôl a'ch sefydliad (fodd bynnag os ydych chi am ddefnyddio cyswllt â sefydliad arall, nodwch hwnnw yn y blwch isod)

**Cwestiwn 2** Ticiwch 'Ydw' os ydych chi'n dymuno i'r Pwyllgor Craffu ystyried unrhyw amgylchiadau arbennig sydd wedi effeithio ar eich gyrfa. Gallai hyn gynnwys bylchau mewn gwaith, lleihau cynnyrch, neu newidiadau mewn amgylchiadau personol.

Bydd natur y rhagoriaeth rydym ni'n chwilio amdano bob amser yn gysylltiedig â bywyd a phrofiad yr Enwebai. Wrth asesu eich enwebiad, mae'r Pwyllgor Craffu'n gallu ystyried trefniadau cytundebol (e.e. llawn amser, rhan amser, rhannu swydd, cyfrifoldebau clinigol) ac unrhyw amgylchiadau personol, teuluol neu anacademaidd a allai fod wedi effeithio ar eich proffil gyrfa neu swmp eich gwaith. Bydd y safonau rhagoriaeth yn parhau'r un fath.

Mae'r ffactorau y gellid eu hystyried yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Trefniadau gwaith hyblyg (e.e. saib gyrfa, gweithio rhan amser, gweithio yn ystod y semester / tymor, rhannu swydd)
- Beichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth, rhannu absenoldeb rheini, mabwysiadu a benthyg croth, gwarcheidwaeth arbennig
- Cyfrifoldebau gofal
- Anabled, afiechyd (yn cynnwys iechyd meddwl) neu anaf
- Amgylchiadau'n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd
- Amgylchiadau personol, teuluol neu eraill sy'n anacademaidd sydd wedi cyfyngu neu oedi gyrfa broffesiynol yr Enwebai

Os nad yw'r materion yn gyfrinachol, nodwch nhw yn y blwch testun dan Gwestiwn 2. Os yw'r materion neu eu heffaith yn fwy cyfrinachol eu natur, anfonwch Ffurflen Amgylchiadau Unigol ar wahân. Caiff hon ei rhannu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu yn unig.

**Cwestiwn 3** Nodwch ein diffiniad o 'Cysylltiad â Chymru':

*Unigolion sy'n preswyllo yng Nghymru, unigolion a anwyd yng Nghymru ond sy'n preswyllo yn rhywle arall ac eraill sydd â chysylltiad penodol â Chymru*





Gall cysylltiadau 'eraill' gynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt – cyfraniadau i astudiaethau am Gymru, i fywyd cyhoeddus Cymru, neu i systemau addysg yng Nghymru.

**Cwestiwn 4** Heb ddefnyddio mwy na 5 gair, disgrifiwch eich maes gweithgaredd. Er enghraifft gallech restru “Iechyd Cyhoeddus”, “Cyfraith Ryngwladol”, “Biocemeg”, “Llenyddiaeth a Diwylliant Ewrop”, “Arwain a Rheoli Addysg Uwch” neu “Cyfrifiadureg”. Defnyddir y disgrifiad hwn fel tag ar ein gwefan a’n cronfa ddata, er mwyn cysylltu Cymrodyr ag arbenigedd mewn maes penodol.

**Cwestiynau 5-8** Dylech ateb y cwestiynau hyn yn yr un ffordd ag ar CV safonol.

**Cwestiwn 9** Rhestrwch hyd at 20 o'ch prif gynnyrch yn nhrefn dyddiad, gan ddechrau gyda'r diweddaraf.

Gall y cynnyrch gynnwys:

- Cyhoeddiadau sylweddol neu gyfraniadau ysgolheigaidd (e.e. llyfrau, erthyglau cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, penodau mewn llyfrau, adroddiadau ymchwil)
- Cynnyrch artistig (e.e. perfformiadau, gweithiau llenyddol, cyfansoddiadau cerddorol)
- Adroddiadau neu gyfraniadau eraill i'n llywodraeth, cyrff ariannu, asiantaethau rhyngwladol, cyrff elusennol mawr neu fusnes
- Cyfraniadau at bolisi neu addysgeg
- Cynnyrch eraill fel meddalwedd, dyluniadau, arteffactau, cwmnïau newydd neu batentau

**Atebwch Gwestiynau 10 ac 11 dim ond os yw eich enwebiad ar gyfer Pwyllgorau Craffu HASS neu STEMM. Os yw eich enwebiad ar gyfer Pwyllgor Craffu C1, ewch i Gwestiwn 12.**

**Os nad ydych chi'n gwybod pa Bwyllgor Craffu fydd yn asesu eich enwebiad, holwch eich Cynigydd.**

**Cwestiwn 10** Dewiswch y meincnodau yn ôl y cyfarwyddyd ar y ffurflen. Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym ni'n defnyddio'r meincnodau i asesu enwebiadau yn Atodiad 2.

**Cwestiwn 11** Ar gyfer pob meincnod a ddewisir yng Nghwestiwn 9, rhwch dystiolaeth o'ch cyflawniadau. Nodwch fod y rhan hon o'r enwebiad yn hollbwysig. Dim ond enwebiadau sy'n dangos cyflawniadau rhagorol ac sy'n bodloni ein meini prawf cyffredinol sy'n debygol o gael eu hargymell i'w hethol i'r Gymrodoriaeth.

**Atebwch Gwestiynau 12 ac 13 dim ond os yw eich enwebiad ar gyfer Pwyllgor Craffu C1.**

**Cwestiwn 12** Dewiswch y maes/meysydd gweithgaredd o dan C1 y mae eich enwebiad yn perthyn iddo. Gallwch ddewis mwy nag un o'r tri maes os yw'n briodol.

**Cwestiwn 13** Yn y maes/meysydd a ddewiswyd yng Nghwestiwn 12, nodwch eich meysydd penodol o arbenigedd gyda thystiolaeth o'ch cyflawniadau, eich statws a'ch cyfraniad at ddysgu. Dylech ganolbwyntio ar ddarparu dystiolaeth ar gyfer meysydd sy'n bodloni ein Meini Prawf Rhagoriaeth cyffredinol. Nodwch mai 750 o eiriau yw'r uchafswm ar gyfer yr ateb cyflawn, yn cynnwys pob maes a ddewiswyd gennych yng Nghwestiwn 12.



Nodwch fod y rhan hon o'r enwebiad yn hollbwysig. Dim ond enwebiadau sy'n dangos cyflawniadau rhagorol ac sy'n bodloni ein meini prawf cyffredinol sy'n debygol o gael eu hargymell i'w hethol i'r Gymrodoriaeth.. Ceir enghreifftiau o'r mathau o gyflawniadau a allai arwyddo bod meincnodau'n cael eu bodloni yn Atodiad 2.

**Cwestiwn 14** Mae'r cwestiwn hwn yn gyfle i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo'r Pwyllgor Craffu. Yn ogystal â darparu tystiolaeth bellach i'ch achos dros gael eich ethol, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi nodi sut y byddech yn cyfrannu at fywyd y Gymdeithas.

Cofiwch mai'r ffurflen hon yw'r unig gyfle sydd gan yr Enwebai i ddarparu gwybodaeth o'r fath - ni fyddwn yn derbyn unrhyw ddogfennau eraill a anfonir atom ar wahân.

---

#### ADRODDIAD CEFNOGWR GWYBODUS / ADRODDIAD ASESYDD ANNIBYNNOL

**Cwestiwn 1** Nodwch y manylion personol y gofynnir amdanynt ac eglurwch eich perthynas â'r Enwebai neu eich gwybodaeth am yr Enwebai. Cyfeiriwch at dudalen 5-6 y ddogfen hon i sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf i weithredu fel Cefnogwr Gwybodus / Asesydd Annibynnol.

**Cwestiwn 2** Ticiwch y blwch sydd, yn eich barn chi, yn cynnig y disgrifiad mwyaf priodol o'r Enwebai mewn perthynas â'n meini prawf etholiad. Bydd ein Pwyllgor Craffu'n ystyried hwn ochr yn ochr â'ch ateb i Gwestiwn 3.

**Cwestiwn 3** Nodwch sail resymegol yr asesiad a roddwyd yng Nghwestiwn 2. I gwblhau'r adran hon, gofynnwn i chi gyfeirio at Ffurflen Tystiolaeth yr Enwebai. Ar y ffurflen hon, bydd yr Enwebai'n dewis y feincnodau'r maes/meysydd cyflawniad y mae'n dymuno i'r enwebiad gael ei asesu yn eu herbyn. Cyfeiriwch yn benodol at y meincnodau hyn, gan roi eich barn ar y graddau y mae'r Enwebai'n eu bodloni.

---

#### FFURFLEN AMGYLCHIADAU UNIGOL (DEWISOL)

Gweler y nodyn uchod (Ffurflen Tystiolaeth yr Enwebai, Cwestiwn 2).



## ATODIAD 1 – PWYLLGORAU CRAFFU

Defnyddiwch y rhestr hon i bennu pa Bwyllgor Craffu sy'n briodol ar gyfer enwebiad. Rydym yn cydnabod y gall rhai Enwebeion hawlio rhagoriaeth mewn mwy nag un ddisgyblaeth neu faes gweithgarwch. Yn yr achosion hyn, dylech ddewis y brif ddisgyblaeth/maes a chyflwyno'r enwebiad i'r Pwyllgor hwn. I weld rhestr o aelodau cyfredol y Pwyllgorau Craffu ewch i: [www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/pwyllgorau-craffu/](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/pwyllgorau-craffu/)

### PWYLLGORAU GWYDDONIAETH, TECHNOLEG, MATHEMATEG A MEDDYGAETH (STEMM)

<b>Pwyllgor STEMM1 – Meddygaeth a'r Gwyddorau Meddygol</b>	
<b>Anatomeg a Ffisioleg</b>	<b>Gwyddorau Clinigol</b>
Biobeirianneg	Anaesteteg
Peirianneg Fiofeddygol	Deintyddiaeth
Biofeddygaeth	Ymchwil Gwasanaeth Iechyd
Gwyddoniaeth Wybyddol	Geneteg Ddynol
Epidemioleg a Gwybodeg Feddygol	Delweddu
Gwyddor Bwyd a Maeth	Gofal Dwys/Gofal Brys
Meddygaeth Fforensig	Meddygaeth a Meddygaeth Foleciwlaidd
Geneteg	Niwroleg a Seiciatreg
Haint ac Imiwedd	Nyrsio
Biocemeg Feddygol	Obstetreg a Gynaecoleg
Niwrowyddoniaeth	Oncoleg
Patholeg	Offthalmoleg
Ffarmacoleg a Thocsicoleg	Pediatreg
Seiciatreg	Patholeg ac Imiwnoleg
Seicoleg	Ffarmacoleg
Gwyddorau Milfeddygol Rhag-glinigol	Gofal Sylfaenol
Iechyd Rhyw	Proffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth
<i>Disgyblaethau eraill</i>	Iechyd Cyhoeddus a Chlefydau Heintus
	<i>Disgyblaethau eraill</i>

<b>Pwyllgor STEMM2 – Gwyddorau Cellol, Moleciwlaidd, Esblygol, Organebol ac Ecosystem</b>	
<b>Bioleg Organebol ac Amgylcheddol</b>	<b>Bioleg Celloedd a Moleciwlaidd</b>
Gwyddor Amaeth	Biocemeg
Ymddygiad Anifeiliaid	Biowybodeg
Bioleg Anifeiliaid	Biotechnoleg
Bioamrywiaeth a Chadwraeth	Bioleg Celloedd
Ecoleg	Bioleg Ddatblygiadol
Bioleg a Rheoli Amgylcheddol	Genomeg
Bioleg Esblygol	Bioleg Foleciwlaidd
Gwyddor Coedwig	Geneteg Foleciwlaidd
Bioleg Dŵr Croyw	Bioleg Strwythurol
Bioleg Forol a Physgodfeydd	Bioleg Systemau a Synthetig
Microbioleg	<i>Disgyblaethau eraill</i>
Mycoleg	
Ffisioleg	
Bioleg Planhigion	
Geneteg Poblogaeth a Meintiol	
Rheoli Adnoddau Gwledig	
Bioleg Pridd	<i>Disgyblaethau eraill</i>



<b>Pwyllgor STEMM3 – Cemeg, Ffiseg, Seryddiaeth a Gwyddorau Daear</b>	
<b>Ffiseg a Seryddiaeth</b>	<b>Gwyddorau Daear a Chemeg</b>
Ffiseg Gymwysedig	Cemeg Ddadansoddol
Seryddiaeth a Chosmoleg	Catalysis
Ffiseg Atomig a Moleciwlaidd a Nanodechnoleg	Bioleg Gemegol a Chemeg Feddygol
Bioffiseg	Hinsawdd ac Atmosffer
Ffiseg Gyfrifiannol	Deunyddiau Daear
Ffiseg Mater Cyddwys	Earth Observation
Ffiseg Feddygol	Arsylwi Daear
Opteg a Laserau	Adnoddau Daear a Geo-beirianeg
Ffiseg Gronynnau a Niwclear	Prosesau Arwyneb Daear
Rhyngwynebau Ffiseg a'r Gwyddorau Bywyd	Geowyddoniaeth Amgylcheddol gan gynnwys Gwyddoniaeth Archeolegol
Ffiseg Plasma	Cemeg Anorganig
Ffiseg Feddygol	Cemeg Deunyddiau
Gwyddor System Solar	Nanowyddoniaeth Foleciwlaidd
<i>Disgyblaethau eraill</i>	Eigioneg a Hydroleg
	Cemeg Organig
	Cemeg Ffisegol
	Gwyddor Daear Solet a Phlanedol
	Cemeg Ddamcaniaethol a Chyfrifiannol
	<i>Disgyblaethau eraill</i>

<b>Pwyllgor STEMM4 – Cyfrifiadureg, Mathemateg ac Ystadegau</b>	<b>Pwyllgor STEMM5 – Peirianeg</b>
Deallusrwydd Artiffisial a Dysgu Peiriannau	Peirianeg Awyrfod
Mathemateg Actiwaraid a Chyllidol	Biobeirianeg a thechnolegau gofal iechyd
Algebra a Rhesymeg	Peirianeg Gemegol, Proses a Phetroliwm
Mathemateg Gymwysedig	Peirianeg Sifil, Strwythurol a Chloddio
Graffeg Gyfrifiadurol, Golwg Cyfrifiadurol, Systemau Rhithiol	Cyfathrebu, Arwyddion a Phrosesu Delwedd
Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Chyfrifiadura Symudol/Treiddiol	Rheoli, Roboteg a systemau ymreolaethol
Systemau Cyfrifiadurol a Pheirianeg Cyfrifiaduron	Peiriannau Dylunio a Systemau
Mecaneg Continwmm	Deunyddiau, Dyfeisiau a Systemau Electronig
Mathemateg Arwahanol	Systemau Ynni, Ynni Adnewyddadwy a Phŵer Trydanol
Geometreg a Thopoleg	Arweinyddiaeth Peirianeg
Rhyngweithio Dynol Cyfrifiadurol	Peirianeg Amgylcheddol
Systemau Gwybodaeth ac Adalw Gwybodaeth	Dynameg Hylifol, Peirianeg Llongau a Morol
Dadansoddi Mathemategol	Peirianeg Ddiwydiannol
Bioleg Fathemategol a Chyfrifiannol	Deunyddiau a Nanodechnoleg
Ffiseg Fathemategol	Peirianeg Fecanyddol, Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu
Dadansoddi Rhifol	Technegau Microdon a Thonnau Milimetr
Ymchwil Gweithrediadol	Damcaniaeth Tebygolrwydd a Thebygolrwydd Cymwysedig
Damcaniaeth Tebygolrwydd a Thebygolrwydd Cymwysedig	Peirianeg Meddalwedd
Peirianeg Meddalwedd	<i>Disgyblaethau eraill</i>
Ystadegau	
Cyfrifiadureg Ddamcaniaethol a Mathemateg Rifol	
<i>Disgyblaethau eraill</i>	



PWYLLGORAU Y DYNIAETHAU, Y CELFYDDYDAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL (HASS)

<b>Pwyllgor HASS1 – Iaith, Llenyddiaeth a Hanes, Damcaniaeth ac Ymarfer y Celfyddydau Perfformio</b>	
<b>Iaith a Llenyddiaeth</b>	<b>Hanes, Damcaniaeth ac Ymarfer y Celfyddydau Creadigol a Pherfformio</b>
Ieithyddiaeth Gymwysedig	Pensaernïaeth a Phensaernïaeth Tirwedd
Astudiaethau Celtaidd	Dylunio Creadigol
Ieithoedd Clasur a Hanes yr Henfyd	Ysgrifennu Creadigol
Astudiaethau Diwylliannol	Polisi Diwylliannol a Chyfraniadau i Fwyd Diwylliannol
Llenyddiaeth yn Saesneg	Dawns, Theatr a Pherfformio
Ieithoedd a Llên Ewropeaidd Modern a Chanoloesol	Ffilm, Teledu, Radio a'r Cyfryngau Digidol
Ieithoedd a Llên Anewropeaidd	Hanes y Celfyddydau a Dylunio
Ieithyddiaeth a Seineg Ddamcaniaethol	Newyddiaduraeth
Astudiaethau Cymru	Astudiaethau Cyfryngau
<i>Disgyblaethau eraill</i>	Cerddoriaeth
	Cynllunio a Dylunio Trefol
	Y Celfyddydau Gweledol a Chymwysedig
	<i>Disgyblaethau eraill</i>

<b>Pwyllgor HASS2 – Hanes, Archaeoleg, Athroniaeth a Diwinyddiaeth</b>	
<b>Hanes</b>	<b>Athroniaeth a Diwinyddiaeth</b>
Hanes Prydain	Estheteg, Moeseg ac Athroniaeth Foesol
Hanes Eglwysig	Astudiaethau Beiblaidd
Hanes Economaidd a Chymdeithasol	Epistemoleg ac Athroniaeth Gwyddoniaeth
Hanes Ewrop	Hanes Athroniaeth a Syniadau
Archaeoleg Hanesyddol	Hanes Crefydd
Hanesyddiaeth	Rhesymeg a Metaffiseg
Hanes Cyfandiroedd Eraill	Athroniaeth Wleidyddol
Hanes Crefydd	Astudiaethau Crefydd
Hanes Gwyddoniaeth a Meddygaeth	Diwinyddiaeth ac Athroniaeth Crefydd
Archeoleg Cyn-hanesyddol	<i>Disgyblaethau eraill</i>
<i>Disgyblaethau eraill</i>	

<b>Pwyllgor HASS3 – Economeg a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a'r Gyfraith</b>	
<b>Gwyddorau Economaidd a Chymdeithasol ac Addysg</b>	<b>Y Gyfraith</b>
Anthropoleg, Cymdeithaseg, Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol	Cyfraith Fasnachol
Astudiaethau Cyfrifyddu	Cyfraith Gymharol
Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Rheoli	Cyfraith Trosedd
Daeryddiaeth Economaidd, Ddynol a Chymdeithasol	Cyfraith Ewropeaidd
Economeg ac Econometreg	Hawliau Dynol
Ymchwil a Pholisi Addysg	Technoleg Gwybodaeth: y Gyfraith ac Ymarfer
Gwyddor Wleidyddol a Chysylltiadau Rhyngwladol	Cyfraith Ryngwladol
<i>Disgyblaethau eraill</i>	Cyfreitheg
	Hanes Cyfreithiol
	Ymarfer Cyfreithiol a Gweinyddu Cyfiawnder
	Cyfraith Breifat
	Cyfraith Gyhoeddus
	Astudiaethau Sosio-Gyfreithiol a Throseddeg
	<i>Disgyblaethau eraill</i>



BUSNES, GWASANAETH CYHOEDDUS AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

<b>Pwyllgor C1</b>	
<b>Arweinyddiaeth mewn Ymgysylltu a Dealltwriaeth y Cyhoedd</b>	<b>Arweinyddiaeth Broffesiynol, Addysgol a Sector Cyhoeddus</b>
Llyfrgellyddiaeth a Rheoli Gwybodaeth	Polisi Cyhoeddus ac Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus
Curaduraeth Amgueddfeydd ac Oriolau	Arweinyddiaeth yn y Sector Dielw a Gwirfoddol
Treftadaeth	Arweinyddiaeth a Datblygu Ysgolion ac Addysg Bellach
Dawns, Theatr a Pherfformio	Arweinyddiaeth a Datblygu Addysg Drydyddol
Ysgrifennu Creadigol	Arweinyddiaeth Broffesiynol
Ffilm, Teledu, Radio a'r Cyfryngau Digidol	<i>Disgyblaethau eraill</i>
Ymarfer yn y Celfyddydau Gweledol a Chymwysedig	
Allgymorth a Dealltwriaeth y Cyhoedd o Wyddoniaeth a Llên	
<i>Disgyblaethau eraill</i>	
<b>Cyfraniad at Arweinyddiaeth yn y Sector Preifat</b>	
Diwydiant a Masnach	
Menter	
Rheoli yn y Sector Preifat	
<i>Disgyblaethau eraill</i>	



## ATODIAD 2 – SUT YDYM YN ASESU RHAGORIAETH ENWEBIADAU

### MEINI PRAWF RHAGORIAETH

Mae'n rhaid i bob enwebiad – boed i bwyllgorau HASS/STEMM neu i'r pwyllgor C1 – fodloni ein tri Maen Prawf Rhagoriaeth:

- Cyflawniad eithriadol (ansawdd eich cyflawniadau a'ch cyfraniadau at ddysgu)
- Statws proffesiynol (cryfder eich enw da ymhlith eich cyfoedion)
- Cyfraniadau ehangach (yr effaith rydych wedi'i chael ar bobl, sefydliadau neu ar gymdeithas ehangach)

### ENWEBIADAU I BWYLLGORAU CRAFFU HASS A STEM - MEINCNODAU

Mae enwebiadau i Bwyllgorau Craffu HASS a STEM yn cael eu hasesu yn erbyn meincnodau. Mae'r rhain yn safonau neu'n bwyntiau cyfeirio:

1. Y Cynigydd ac Enwebeion wrth lunio'r datganiadau a wneir ar y Ffurflen Enwebu a'r Ffurflen Tystiolaeth; ac
2. Y Pwyllgorau Craffu wrth werthuso honiadau a chyfraniadau Enwebeion

Nid ydynt yn hollgynhwysfawr nac yn rhagnodol. Fe'u cynlluniwyd i ychwanegu at gysondeb a thryloywder y Broses Etholiadol ar draws yr holl Bwyllgorau Craffu.

Y dylai'r Cynigydd a'r Enwebai nodi'r meincnodau y maent yn hawlio rhagoriaeth ac yn dymuno cael eu gwerthuso yn eu herbyn. Ar y Ffurflen Dystiolaeth Enwebai, dylid defnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer bodloni'r meincnodau hyn hefyd, i ddangos eu bod yn bodloni'r tri Maen Prawf Rhagoriaeth.

Mae'r meincnodau wedi'u rhannu'n dri chategori: **Ymchwil**; **Ysgoloriaeth ac Addysg**; ac **Ymgysylltu Academiaidd, Arloesi ac Arweinyddiaeth**

Mae'r tri maes hyn, a'r meincnodau o dan bob un ohonynt, yn cynrychioli'r prif weithgareddau y mae academyddion yn cyfrannu atynt ac y gallant ddod i ragori ynddynt. Dylai enwebeion ddewis o **leiaf pum meincnod ac uchafswm o wyth meincnod**, a darparu dystiolaeth ar gyfer eu cyflawniadau yn eu herbyn.

**Gellir dangos yr holl feincnodau canlynol ar lefel Cymru ac/neu ar lefel ryngwladol.**

Nid yw'n ofynnol i Enwebeion fodloni'r holl feincnodau mewn unrhyw faes na dangos rhagoriaeth ac effaith mewn perthynas â phob un.

#### Meincnodau Ymchwil

1. Ymchwil seiliedig ar ddisgyblaeth a rhyngddisgyblaeth, boed yn ddamcaniaethol neu'n empirig, sy'n gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth
2. Cofnod o gynhyrchion o bwys cenedlaethol/rhyngwladol, e.e. cyhoeddiadau mewn cylchgronau a adolygydd gan gymheiriaid, llyfrau gan brif gyhoeddwr, gwaith artistig, patentau
3. Cyfrannu at ddatblygu neu adnewyddu'r ddisgyblaeth/maes ac/neu gwneud cyfraniad mawr i'r genhedlaeth nesaf o ysgolheigion drwy sicrhau cyllid, goruchwylio neu arwain ymchwilwyr/timau ymchwil/myfyrwyr ymchwil
4. Hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth am ymchwil, e.e. drwy eiddo deallusol, ymgynghoriaeth, cwmnïau deillio neu gwmnïau newydd, creu rhwydweithiau i ddod ag ymchwilwyr â diwydiant at ei gilydd



### Meincnodau Ysgolheictod ac Addysg

5. Cyfraniadau sylweddol at addysgeg y maes pwnc/ymarfer proffesiynol, ac/neu ysgolheictod/ymchwil/cyllid sylweddol sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu
6. Cyfnewid gwybodaeth: cyfathrebu a datblygu addysgu a dysgu, ysgolheictod ac ymchwil er budd sectorau addysgol, cyrff proffesiynol a chymdeithas
7. Ehangu cyfranogiad, ymgysylltu â dysgwyr, neu gefnogi datblygu strategaeth addysgol neu safonau addysg gweithredol
8. Arweinyddiaeth academaidd sylweddol, cydlynu neu reolaeth lefel uwch yn y sector trydyddol

### Meincnodau Ymgysylltu Academaidd, Arloesi ac Arweinyddiaeth

9. Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol uwch-gydweithwyr yn y gymuned academaidd, gan gynnwys mentora, arwain ar fentrau hyfforddi a datblygu
10. Cymryd rhan sylweddol mewn ehangu cyfranogiad, meithrin gallu ac/neu gefnogi/datblygu addysg yng Nghymru ac yn ehangach
11. Ymgysylltu'n allanol yn defnyddio arbenigedd academaidd, neu gefnogi nodau a gweithgareddau cyfrifoldeb cymdeithasol; trosi arbenigedd ymchwil neu addysgu yn weithgaredd buddiol neu'n newid cadarnhaol yn y gymuned ehangach
12. Cymhwyso gwybodaeth i wella perfformiad ac ansawdd bywyd y sector cyhoeddus, drwy lywio polisi cyhoeddus a llywodraeth neu drwy ddylanwadu'n sylweddol ar y sectorau diwylliannol, treftadaeth neu ar y sectorau eraill
13. Tystiolaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo/gwella dealltwriaeth ac enw da/proffil gwaith academaidd, a gweithgarwch proffesiynol

---

### ENWEBIADAU I BWYLLGOR C1 – MEYSYDD AC IS-FEYSYDD CYFLAWNIAD

Ar gyfer y pwyllgor C1 – Busnes, Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd – dylai'r Cynigydd a'r Enwebai nodi'r maes (meysydd) cyflawniad a'r is-faes/meysydd penodol yr hawlir rhagoriaeth ynddynt.

Mae C1 yn cwmpasu ystod amrywiol iawn o gyflawniadau a chyfraniadau i fyd dysgu. Nid yw'n bosibl rhestru meincnodau yn yr un modd ag ar gyfer enwebiadau academaidd. Dylai enwebeion yn y categori hwn ddewis **un neu fwy o'r meysydd cyflawniad** a restrir ac enwi'r maes (meysydd) penodol yr hawlir rhagoriaeth ynddynt. Yna, dylai eu datganiad ddarparu tystiolaeth i ddangos bod eu cyflawniadau yn y meysydd hyn yn bodloni ein Meini Prawf Rhagoriaeth cyffredinol.

Maes Cyflawniad	Is-feysydd (heb fod yn rhestr gyflawn)
Arweinyddiaeth mewn Ymgysylltu a Dealltwriaeth y Cyhoedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llyfrgellyddiaeth a Rheoli Gwybodaeth</li> <li>• Curaduraeth Amgueddfeydd ac Orielau</li> <li>• Treftadaeth</li> <li>• Dawns, Theatr a Pherfformio</li> </ul>





	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ysgrifennu Creadigol</li><li>• Ffilm, Teledu, Radio a'r Cyfryngau Digidol</li><li>• Ymarfer yn y Celfyddydau Gweledol a Chymwysedig</li><li>• Allgymorth a Dealltwriaeth y Cyhoedd o Wyddoniaeth a Llên</li></ul>
Arweinyddiaeth Broffesiynol, Addysgol a Sector Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"><li>• Polisi Cyhoeddus ac Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus</li><li>• Arweinyddiaeth yn y Sector Dielw a Gwirfoddol</li><li>• Arweinyddiaeth a Datblygu Ysgolion ac Addysg Bellach</li><li>• Arweinyddiaeth a Datblygu Addysg Drydyddol</li><li>• Arweinyddiaeth Broffesiynol</li></ul>
Cyfraniad at Arweinyddiaeth yn y Sector Preifat	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diwydiant a Masnach</li><li>• Menter</li><li>• Rheoli yn y Sector Preifat</li></ul>

### Dangosyddion Cyflawniad

Er mwyn cynorthwyo Cynigwyr ac Enwebeion C1, rydym yn darparu'r enghreifftiau canlynol o briodoleddau a chyflawniadau a allai fodloni ein tri Maen Prawf Rhagoriaeth yn y meysydd hyn. Pwysleisiwn mai dangosol yn unig yw'r rhain.

### Gellir bodloni'r holl ddangosyddion canlynol ar lefel Cymru ac/neu ar lefel ryngwladol.

- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu â'r byd dysgu
- Ymrwymiad i drosglwyddo eiddo, arbenigedd, dysgu a sgiliau diriaethol a deallusol rhwng y gymuned anacademaidd a'r byd academaidd
- Cynnyrch a chyhoeddiadau (e.e. erthyglau cyfnodolion, llyfrau, perfformiadau, darllediadau, cyfansoddiad, arddangosfeydd, meddalwedd, patentau) gyda statws ac effaith amlwg
- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo/gwella cyfathrebu'r disgyblaethau neu broffesiynau i gynulleidfaoedd ehangach
- Cyfraniad ysbrydoledig at ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ysgolheigion, a datblygiad, cefnogaeth a pharhad y ddisgyblaeth neu'r maes perthnasol
- Hwyluso addysg pobl eraill, drwy gyfraniadau mawr i ddysgu a chymorth ar gyfer dysgu
- Cyfraniad eithriadol at ddatblygu a chynnal y disgyblaethau/proffesiynau er budd Cymru a'i chymunedau
- Cyfnewid gwybodaeth, lle mae arloesi mewn busnes, y celfyddydau, gwyddoniaeth neu'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn cyfrannu at wybodaeth ac ymchwil academaidd
- Arfer cyfrifoldeb rheoli ac arwain sylweddol o fewn y sectorau ysgolion, addysg bellach, addysg i oedolion neu addysg yn y gymuned
- Arweinyddiaeth dros, ac/neu gofnod o wasanaeth i gyrff, sefydliadau neu rwydweithiau proffesiynol, llywodraeth, trydydd sector neu sector preifat perthnasol



- Arweinyddiaeth a chyfranogiad gweithredol mewn pwyllgorau cynghori neu fforymau proffesiynol neu seiliedig ar ymarfer
- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o wybodaeth ac ymchwil, diwylliant a'r celfyddydau, ac ymgysylltu â nhw, neu gyfrannu at drafodaeth gyhoeddus wybodus
- Trosi arbenigedd mewn ymchwil neu addysgu yn weithgaredd buddiol neu'n newid positif yn y gymuned ehangach

2021/22



### ATODIAD 3 – CANLLAWIAU YCHWANEGOL I'R PWYLLGORAU CRAFFU

Mae'r canllawiau ychwanegol canlynol ar gyfer aelodau ein naw Pwyllgor Craffu. Fe'u cynhwysir yma er mwyn gwneud y Broses Etholiadol, a'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r broses, yn dryloyw i bawb.

#### CYFRINACHEDD

Caiff gwybodaeth a dogfennaeth yn ymwneud ag enwebiadau etholiad eu darparu i aelodau o'r Pwyllgorau Craffu ar sail hollol gyfrinachol ac ni cheir eu trafod â neb na'u datgelu i neb ar unrhyw gyfrif ar wahân i'r canlynol:

- Cyd aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Aseswyr Annibynnol
- Yr Is-Lywydd cyfrifol (neu'r Llywydd yn achos Pwyllgor C1)
- Staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru

#### CYFANSODDIAD Y PWYLLGORAU

1. Mae gan bob un o Bwyllgorau Craffu HASS a STEM aelodaeth graidd sy'n cynnwys Cadeirydd, Is-Gadeirydd a rhwng 3 a 7 Cymrawd arall sy'n weithredol neu'n brofiadol mewn meysydd perthnasol. Os yw Pwyllgor yn pennu bod angen cyfraniad arbenigol pellach, gall gyfethol yn ychwanegol un Cymrawd neu fwy a etholwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor hwnnw.
2. Mae Pwyllgor C1 yn cynnwys Llywydd y Gymdeithas, dau Is-Lywydd, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, ynghyd â dau aelod arall a benodir gan y Cyngor.
3. I gynorthwyo gyda'r broses graffu, caiff cyfeiriadau ebost cyswllt pob aelod o'r Pwyllgor Craffu eu cylchredeg i aelodau eraill o'r pwyllgor, a chaiff cyfeiriadau ebost cyswllt pob Cadeirydd eu cylchredeg i'r Cadeiryddion eraill.

#### CYFANSWM HYD GWASANAETH

1. Yn arferol, ni ddylai Cymrawd wasanaethu am fwy na naw mlynedd yn ddi-dor ar unrhyw bwyllgor – boed y cyfnod hwnnw wedi'i gronni fel Cadeirydd, Is-Gadeirydd neu aelod.
2. Unwaith y bydd Cymrawd yn cyrraedd y terfyn o naw mlynedd, ceir saib o un flwyddyn cyn y bydd yn gymwys i wasanaethu ar y pwyllgor hwnnw eto.

#### PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION

1. Penodi Cadeiryddion:

*Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys i'r holl bwyllgorau HASS a STEM ond nid i bwyllgor C1, a gadeirir gan Lywydd y Gymdeithas.*

- a. Gall Cadeiryddion Pwyllgor wasanaethu am dymor o 3 blynedd, ynghyd â 3 blynedd ychwanegol wedi hynny yn ôl disgrisiwn yr Is-Lywydd perthnasol.



- b. Pan fydd angen Cadeirydd newydd ar bwyllgor, bydd tîm y staff yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb gan yr holl Gymrodyr a etholwyd yn flaenorol gan y pwyllgor hwnnw. Caiff disgrifiad o'r rôl ei ddarparu. Bydd disgwyl i ymgeiswyr feddu ar brofiad blaenorol o wasanaethu ar y pwyllgor hwnnw.
  - c. Os bydd un Cymrawd yn mynegi diddordeb, fe'i penodir yn amodol ar gymeradwyaeth yr Is-Lywydd.
  - d. Os bydd mwy nag un Cymrawd yn mynegi diddordeb, efallai y gofynnir iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth i gefnogi eu hymgeisyddiaeth. Pwyllgor y Gymrodoriaeth fydd yn gyfrifol am ystyried yr wybodaeth a gyflwynir, cyfweld yr ymgeiswyr os bydd angen, a chytuno ar ba ymgeisydd i'w benodi.
2. Penodi Is-Gadeiryddion:
- a. Gall Is-Gadeiryddion wasanaethu am dymor o 3 blynedd, ynghyd â 3 blynedd ychwanegol wedi hynny yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.
  - b. Pan fydd angen Is-Gadeirydd newydd ar bwyllgor, bydd tîm y staff yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb gan holl aelodau cyfredol y pwyllgor hwnnw. Caiff disgrifiad o'r rôl ei ddarparu.
  - c. Os bydd un aelod yn mynegi diddordeb, fe'i penodir yn amodol ar gymeradwyaeth y Cadeirydd.
  - d. Os bydd mwy nag un aelod yn mynegi diddordeb, efallai y gofynnir iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth i gefnogi eu hymgeisyddiaeth. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir a thrafodaeth gyda'r ymgeiswyr os bydd angen, bydd y Cadeirydd yn penodi'r Is-Gadeirydd.

---

## PENODI AELODAU

1. Pwyllgorau HASS a STEM:
- a. Gall aelodau wasanaethu am dymor o 3 blynedd, ynghyd â 3 blynedd ychwanegol wedi hynny yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.
  - b. Pan fydd angen aelodau craidd newydd ar bwyllgor, bydd tîm y staff yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb gan yr holl Gymrodyr a etholwyd yn flaenorol gan y pwyllgor hwnnw. Os oes angen arbenigedd mewn meysydd penodol ar y pwyllgor, neu os oes diffyg amrywiaeth yn unol â strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad y Gymdeithas, nodir hyn yn yr alwad. Drwy gytundeb gyda'r Cadeirydd, gellir ategu'r ymagwedd gyffredinol hon gyda gohebiaeth yn targedu Cymrodyr penodol.
  - c. Ar sail anghenion y pwyllgor, bydd Cadeiryddion yn penodi aelodau craidd o blith y rheini sy'n mynegi diddordeb, gan gyfeirio at yr Is-Lywydd drwy gydol y broses.
  - d. Os oes angen arbenigedd ychwanegol o hyd ar bwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn ystod cylch etholiad y flwyddyn honno, caiff Cadeiryddion gyfethol un Cymrawd neu fwy a etholwyd yn flaenorol gan y pwyllgor.
  - e. Bydd pob pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i drosiant priodol o aelodau bob blwyddyn, i sicrhau cydbwysedd rhwng cysondeb a safbwyntiau newydd.



2. Pwyllgor C1: pan fydd angen cynrychiolydd newydd o'r Cyngor, bydd tîm y staff yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb gan holl aelodau'r Cyngor. Ar sail anghenion y pwyllgor, bydd y Llywydd yn penodi cynrychiolwyr o blith y rheini sy'n mynegi diddordeb.

---

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

1. Mae'r Gymdeithas yn ymrwymo i sicrhau bod ei phenderfyniadau a'i phrosesau penderfynu'n rhydd rhag tuedd personol ac nad ydynt yn ffafrio nac yn anffafrio unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas yn annheg, a bod hynny i'w weld yn amlwg.
2. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod pob aelod pwyllgor yn deall beth yw 'gwrthdaro buddiannau' a bod ganddynt gyfrifoldeb i adnabod a datgan unrhyw wrthdaro a allai godi iddynt.
3. Gellir diffinio gwrthdaro buddiannau fel a ganlyn:  
*"set o amgylchiadau sy'n creu risg bod buddiant eilaidd yn amharu neu'n dylanwadu ar allu unigolyn i ddod i farn neu weithredu yn ei rôl"*
4. Gall gwrthdaro buddiannau fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar aelod o bwyllgor yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, drwy aelod o'r teulu, cyfaill neu bartner busnes.
5. Mae gan bwyllgorau'r cyfrifoldebau canlynol:
  - a. Eu bod yn cynnwys gwrthdaro buddiannau ar eu hagenda bob tro maen nhw'n cyfarfod.
  - b. Ar ddechrau pob cyfarfod, drwy'r Cadeirydd, eu bod yn gofyn i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat yn yr eitemau sydd i'w trafod yn y cyfarfod.
6. Er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau yn y broses enwebu:
  - a. Ni chaiff **aelod** o Bwyllgor Craffu weithredu fel Cynigydd ar enwebiad ar gyfer y pwyllgor y mae'n gwasanaethu arno.
  - b. Ni chaiff **Cadeirydd** Pwyllgor Craffu weithredu fel Cynigydd ar enwebiadau i unrhyw bwyllgor.
  - c. a. Ni chaiff **aelod** o Bwyllgor Craffu fod yn aelod o Gyngor y Gymdeithas. Mae Pwyllgor C1 yn eithriad, ac felly caiff aelodau o'r pwyllgor hwnnw eu hatal rhag pleidleisio yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor.  
*Nid yw cyfyngiadau a a b yn gymwys i rôl Eilydd, nac i ethol Cymrodyr Er Anrhydedd.*
7. Er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu:
  - a. Bydd gofyn i aelod o'r pwyllgor sy'n Eilydd neu'n Asesydd Annibynnol ar enwebiad i'r pwyllgor, neu sydd â chyswllt teuluol â'r Enwebai, adael yr ystafell wrth i'r enwebiad hwnnw gael ei ystyried.
  - b. Rhaid i aelod pwyllgor sy'n adnabod yr Enwebai beidio ag ychwanegu unrhyw wybodaeth bersonol am yr unigolyn hwnnw nad yw wedi'i datgan ar y ffurflenni enwebu, ond gall wneud sylw ar yr hyn sydd ar y ffurflen os caiff wahoddiad i wneud hynny gan y Cadeirydd.
  - c. Ym mhob cyfarfod pwyllgor, bydd y Cadeirydd yn galw am ddatganiadau o fuddiant cyn i aelodau ddechrau adolygu'r enwebiadau. Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau o'r math a nodir ym mhwyntiau **a a b**, neu unrhyw fuddiant perthnasol arall mewn enwebiad.



- d. Os oes gan y Cadeirydd wrthdaro buddiannau gydag enwebiad, bydd y Dirprwy Gadeirydd yn arwain wrth werthuso'r enwebiad hwnnw.
- e. Ym mhob achos, ni chaiff aelod(au) sydd â gwrthdaro gymryd rhan na dylanwadu ar y penderfyniad nac unrhyw bleidlais ar yr enwebiad perthnasol; rhaid iddynt hefyd dynnu'n ôl o'r cyfarfod yn ystod pleidleisiau o'r fath.

---

#### DYRANNU ENWEBEION I'R PWYLLGORAU CRAFFU

1. Bydd tîm y staff yn dyrannu pob enwebiad i'r Pwyllgor Craffu a ddewiswyd gan y Cynigydd ar y Ffurflen Enwebu. Os yw'r Cynigydd yn dewis mwy nag un pwyllgor, bydd staff yn gohebu â nhw i bennu'r pwyllgor mwyaf priodol. Os nad oes modd iddynt wneud y penderfyniad hwn, bydd staff yn gohebu â chadeiryddion y pwyllgorau perthnasol.
2. Os yw Cynigydd yn dymuno i enwebiad aflwyddiannus gael ei ystyried unwaith eto, rhaid ei ailgyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflenni cywir ar gyfer cylch etholiad y flwyddyn honno, cyn y dyddiad cau arferol; yna caiff ei ddyrannu i Bwyllgor Craffu.

---

#### ASESWYR ANNIBYNNOL

1. Caiff asesiad cychwynnol o bob enwebiad ei gynnal gan o leiaf un ond gorau oll ddau Asesydd Annibynnol. Gweler tudalen 5-6 am ddisgrifiad o'r rôl hon.
2. I ddechrau, gwahoddir dau Asesydd i gwblhau adroddiad asesu. Fel arfer bydd trydydd Asesydd wrth gefn, rhag ofn (a) bod y ddau adroddiad cyntaf yn cynnig asesiadau o'r Enwebai sy'n croesddweud ei gilydd neu (b) bod un o'r unigolion a awgrymir yn anfodlon neu'n methu â gweithredu. Efallai y bydd y Gymdeithas yn cysylltu ag un neu fwy o'r Aseswyr a enwir ar y Ffurflen Enwebu ond gallent gysylltu ag eraill hefyd.
3. Gofynnir i'r rheini a wahoddir i weithredu fel Aseswyr ymateb i'r gwahoddiad o fewn cyfnod byr, i gadarnhau a ydynt yn fodlon ac yn gallu darparu adroddiad erbyn y dyddiad gofynnol. Os ceir ymateb negyddol neu os na ddaw ymateb i law o fewn y cyfnod hwnnw, dylid gwahodd darpar Asesydd arall i gynnig adroddiad.
4. Gan ddefnyddio ffurflen Adroddiad yr Asesydd, bydd pob Asesydd yn:
  - a. Gosod pob enwebiad mewn un o'r pum categori canlynol:
    - Rhagorol
    - Bodloni'r meini prawf i gael ei ethol
    - Efallai y gellid ei ethol
    - Anaddas neu anghystadleuol am etholiad ar hyn o bryd
    - Methu â gwneud sylw
  - b. Darparu sail resymegool drylwyr am y penderfyniad, gan gyfeirio'n glir at Ffurflen Tystiolaeth yr Enwebai a chyfeirio'n benodol at y meincnodau'r maes/meysydd cyflawniad y gwerthusir yr enwebiad yn eu herbyn.
5. Os nad yw Pwyllgor Craffu'n gallu sicrhau adroddiad gan Asesydd, bydd y Cadeirydd yn ystyried (mewn ymgynghoriad â'r Is-Lwydd perthnasol) a all y pwyllgor werthuso'r Enwebai hebdo.



---

## NEILLTUO ENWEBEION I AELODAU O'R PWYLLGOR CRAFFU

Bydd Cadeirydd pob Pwyllgor Craffu'n neilltuo pob enwebiad y mae'n ei dderbyn i aelod o'r pwyllgor i gynnal adolygiad cychwynnol. Bydd yr aelod hwn yn:

1. Cynnal unrhyw ymchwil ychwanegol i'r Enwebai y gallai fod ei angen i ategu'r wybodaeth ar y ffurflenni a'r adroddiadau.
2. Cyflwyno'r Enwebai i weddill y pwyllgor pan fydd yn cynnal ei gyfarfod ffurfiol (gweler isod).

---

## PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU

1. Cyn ystyried enwebiadau:
  - a. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, y Llywydd a'r Is-Lywydd yn cyfarfod i gael cyfarwyddyd manwl ar y gweithdrefnau craffu, yn cynnwys unrhyw newidiadau a wneir i broses etholiad y flwyddyn honno.
  - b. Cynigir hyfforddiant/cyngor ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad i holl aelodau'r pwyllgorau.
2. Bydd pob Pwyllgor Craffu'n cyfarfod yn ystod mis Ionawr neu fis Chwefror (wyneb yn wyneb fel arfer) i ystyried yr enwebiadau a ddyrannwyd iddo a chytuno ar restr o Enwebeion yn eu trefn.
3. Cworwm pob pwyllgor yw dwy ran o dair o'r aelodau (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif nesaf). Mae hyn yn cynnwys aelodau sy'n ymuno â'r cyfarfod yn electronig.
4. Yn ystod y cyfarfod, bydd aelodau'r pwyllgor yn ystyried enwebiadau yng nghyd-destun adroddiadau'r Aseswyr perthnasol ac yn asesu'r enwebiadau yn erbyn y Meini Prawf Rhagoriaeth (tudalen 15) a'r meincnodau'r maes/meysydd cyflawniad (Atodiad 2).
5. Gofynnir i'r pwyllgorau lunio hyd at bum rhestr yn ystod y cyfarfod:
  - a. Rhestr yn eu trefn o'r rheini yr aseswyd eu bod yn rhagorol yn erbyn yr holl feincnodau'r maes/meysydd cyflawniad a ddewiswyd
  - b. Rhestr yn eu trefn o'r rheini sy'n etholadwy, gyda rhywfaint o dystiolaeth o gyflawniad rhagorol
  - c. Rhestr yn eu trefn o'r rheini sy'n etholadwy ond sydd ag ychydig yn unig o dystiolaeth os o gwbl o gyflawniad rhagorol
  - d. Rhestr heb fod mewn trefn o'r sawl yr ystyrir eu bod yn anetholadwy, ond y gellid eu hethol o bosibl yn y tymor byr
  - e. Rhestr heb fod mewn trefn o'r sawl yr ystyrir eu bod yn anetholadwy, ac sy'n annhebygol o fodloni'r meini prawf etholiad
6. Yn dilyn y cyfarfod, mae'r broses ganlynol yn gymwys i Bwyllgorau Craffu HASS a STEM:
  - a. Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno rhestrau'r pwyllgor mewn categorïau o Enwebeion i dîm y staff i'w hanfon at yr Is-Lywydd cyfrifol, ac yn anfon copiâu at holl aelodau'r pwyllgor, yn cadarnhau canlyniad y cyfarfod.
  - b. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu'n cyfarfod â'r Is-Lywyddion (mewn dau gyfarfod ar wahân) i drafod rhestrau'r pwyllgorau o Enwebeion wedi'u categorioeddio a llunio rhestr yn eu



trefn o Enwebeion i'w chyflwyno i'r Cyngor. **Ni fydd neb nad yw'n gallu ymrwymo i ddod i'r cyfarfod hwn yn gymwys i wasanaethu'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu.**

- c. Yn ystod y cyfarfod gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, bydd pob Is-Lywydd yn llunio dwy restr:
- Rhestr "A" o'r Enwebeion gorau heb fod yn eu trefn
  - Rhestr "B" o'r Enwebeion sydd wedi bodloni'r meini prawf etholiad yn eu trefn
7. Ar gyfer Pwyllgor Craffu C1, bydd y ddau gam a ddisgrifir ym mhwyntiau 4 a 5(c) yn cael eu dilyn mewn un cyfarfod, h.y. bydd y pwyllgor yn llunio hyd at bum rhestr ac yna'r rhestrau "A" a "B".
8. Bydd Cyngor y Gymdeithas yn ystyried y tair set o restrau "A" a "B" yn ei Gyfarfod Arbennig ym mis Mawrth. Yna caiff y rhestr gymeradwy o Enwebeion ei chyflwyno i bleidlais ffurfiol y Gymrodoriaeth.
9. Y rhagdybiaeth yw y caiff yr holl Enwebeion ar y tair rhestr "A" fel arfer eu cymeradwyo gan y Cyngor i'w cynnwys ar y rhestr hon. Bydd y Cyngor yn pennu pa rai, os o gwbl, o'r Enwebeion o'r rhestrau "B" y dylid eu cynnwys ar y rhestr gymeradwy.
10. Nid oes uchafswm pendant i'r nifer o Gymrodyr newydd a etholir bob blwyddyn, ond disgwylir y caiff o ddeutu 40 eu hethol.
11. Rhaid trin y rhestrau y mae'r Pwyllgorau Craffu a'r Is-Lywyddion yn eu llunio'n gwbl gyfrinachol. Er bod gan Enwebeion aflwyddiannus yr hawl i dderbyn adborth ar eu henwebiad (gweler isod), nid oes ganddynt yr hawl i weld y rhestrau na'u safle ymhlith yr Enwebeion eraill.

---

## ADBORTH I ENWEBEION

1. Ym mhob cyfarfod Pwyllgor Craffu, dylid casglu adborth i'r holl Enwebeion y pennir eu bod yn is na 'rhagorol yn erbyn yr holl feincnodau'r maes/meysydd cyflawniad a ddewiswyd' (gweler pwynt 5 uchod). Mae hyn oherwydd na fydd pwyllgorau'n gwybod tan ar ôl y cyfarfod Arbennig o'r Cyngor pwy o blith y rhai etholadwy yr argymhellir i'w hethol. Nid oes angen casglu adborth i'r rheini y pennir eu bod yn 'rhagorol yn erbyn yr holl feincnodau'r maes/meysydd cyflawniad a ddewiswyd', oherwydd y dybiaeth yw y bydd y cyfryw Enwebeion cael eu cyflwyno am etholiad yn awtomatig.
2. Er mwyn sicrhau bod adborth yn cael ei gasglu mewn modd cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd Cadeirydd y pwyllgor yn cwblhau ffurflen adborth fer, gan gyfeirio at y meincnodau'r maes/meysydd cyflawniad (Atodiad 2). Yna caiff hon ei chyflwyno i'r Is-Lywyddion.
3. Dim ond yr Is-Lywyddion (neu'r Llywydd yn achos pwyllgor C1) a gaiff roi adborth i Enwebeion aflwyddiannus. Caiff adborth ei roi'n uniongyrchol i Enwebeion, i osgoi negeseuon ail law ac anghysondeb o ran trosglwyddo materion sy'n aml yn sensitif ac weithiau'n gyfrinachol.





CYSYLLTU Â NI

Cymdeithas Ddysgedig Cymru  
Cofrestra'r Brifysgol  
Rhodfa'r Brenin Edwad VII  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NS  
Cymru

[www.cymdeithasddysgedig.cymru](http://www.cymdeithasddysgedig.cymru)

[nominations@lsw.wales.ac.uk](mailto:nominations@lsw.wales.ac.uk)

+44 (0)29 2037 6954

2021/22